



CAFC
RWAS

# Sioe Frenhinol Cymru
# Royal Welsh Show

## *20 - 23 Gorffennaf 2026*

Bydd dosbarthiadau yr atodlen yn parhau ar gyfer 2026 a 2027 (gallai'r rheolau newid)

**Noddwr: Ei Fawrhydi Brenin Siarl III**
**Llywydd: Mr Gethin W T Havard, FRAgS**

## Atodlen Garddle

**Pabell Garddle -**
**Pentref Garddwriaeth**

**YMGEISIO AR-LEIN**

*cafc.cymru*
*rwas.wales*

***Ceisiadau Olaf:***
***24 Mehefin 2026***

**Ceisiadau olaf – Dydd Mercher 24 Mehefin 2026**

*Manylion cyswllt* -
Amanda Burton
CAFC, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY
Ffôn: 01982 554409 E-bost: amanda@rwas.co.uk www.cafc.cymru

Annwyl Arddangosydd

Bydd y Pentref Garddwriaeth yn parhau i ddathlu pob agwedd ar arddwriaeth yng Nghymru – o dyfu cymunedol i dyfu masnachol, arddangosfeydd ac arddangosfeydd cystadleuol; ochr yn ochr â hyrwyddo manteision iechyd a chymdeithasol garddio. Y ethos yw i 'ysbrydoli, addysgu a chydweithio.' A bydd yn creu cyfle i gydweithio trwy fannau cymdeithasol cynhwysol, ardaloedd cyfarfod a llwyfannau arddangos.

Bydd yr elfen gystadleuol yn cael ei lleoli yn yr un lle â'r llynedd a gellir cyrraedd trwy lwybrau mewnol neu allanol. Bydd ardal y Garddle (cystadlaethau cyffredinol, gweithgareddau plant, stondinau masnach) yn parhau i lifo i'r ardal Eisteddflodau (Trefnu Blodau, gweithdai a stondinau masnach).

Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud trwy'r system gofrestru ar-lein sy'n gyfleus ac yn hawdd i'w defnyddio heb y gwaith ychwanegol a'r gost o bostio a ffordd ddiogel o dalu. Byddwn yn parhau i gynnig yr opsiwn o wneud hyn trwy'r system bost draddodiadol i'r rheiny nad oes ganddynt gysylltedd addas (cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth).

Nodwch y wybodaeth ychwanegol isod.

Pob lwc gyda'r cystadlu a diolch am eich cefnogaeth a'ch diddordeb.

**Gwybodaeth ychwanegol:-**

- Bydd y Babell Garddle ar agor i dderbyn arddangosion o 2.00pm hyd 9.00pm Ddydd Sul 19 Gorffennaf (bydd unrhyw bryd yn hwyrach na hyn yn destun cytundeb blaenorol gan, a gyda disgresiwn y Brif Stiward yn unig) **ac yn ychwanegol o 6.00am hyd 7.00am ar Ddydd Llun 20 Gorffennaf.**
- Mae gan arddangoswyr yr hawl i gyflwyno **dau arddangosyn** ym mhob dosbarth.
- Er mwyn annog a gwella cyfranogiad yn yr Adran Arddwriaeth gystadleuol gyffredinol, **(ac eithrio'r Adran Iau)**, roedd y Gymdeithas wedi cytuno i ddarparu un tocyn mynediad (unrhyw ddiwrnod) i bob arddangoswr am gyfnod arbrofol o ddwy flynedd yn unig. 2026 bydd yr ail flwyddyn o'r cyfnod arbrofol. Bydd canlyniadau hyn yn cael eu cofnodi a'u monitro'n frwd. Bydd tocynnau mynediad yn cael eu dosbarthu gan y Prif Stiward ar gyflwyno'r ceisiadau ar fore Sul neu fore Llun.
- Atodlen Trefnu Blodau ar gael ar wahân.
- <u>Cyflwyno'r Gwobrau</u> (bydd hyn yn digwydd yn ardal yr adran perthnasol)
  Adrannau Amatur Trefnu Blodau a Garddwriaeth - **Dydd Llun 20 Gorffennaf 1.30pm**
  Adran Iau, Cystadleuaeth Whilber/Berfa'r Plant a Chystadleuaeth Garddio Ysgolion y Sir Nawdd - **Dydd Iau 23 Gorffennaf 11.00am**

Nodwch y byddai'n well gan y Gymdeithas ddefnyddio defnyddiau cynaliadwy bioddiraddadwy / amgen ar gyfer 2026 a'r dyfodol, yn hytrach na ffôm /oasis, mewn unrhyw ddosbarth yn yr Adran Amatur.

Mae'r Pwyllgor Garddwriaeth yn cadw'r hawl i newid unrhyw ddosbarthiadau.

## SWYDDOGION

**Cyfarwyddwr Anrhydeddus y Sioe**
Richard Price

**Cyfarwyddwr Anrhydeddus Cynorthwyol – Garddwriaeth**
Adam Jones

**Pennaeth Gweinyddiaeth**
Caron W Evans

**Prif Stiward**
Richard Evans

**Uwch Stiward**
Lewis Morgan

**Stiwardiaid**
(I'w cadarnhau)

## BEIRNIAID

**Pencampwriaeth Rhosynnau Cymru**
Meic Thompson, Rhondda Cynon Taf

**Planhigion Pot & Chactws a Phlanhigion Suddlon & Ffiwsia a Mynawyd y Bugail**
Ivor Mace, Rhondda Cynon Taf

Dahlia, Carnasiynau, Blodau'r Cleddyf, Lilïau a Ffiol Orau
Robin Pearce, Caerwrangon

**Pencampwriaeth Pys Pêr Cenedlaethol Cymru**
Mr & Mrs Jim and Mary McDonald, Hampshire

**Llysiau a Ffrwyth Meddal**
Arwyn Edwards, Sir Gaerfyrddin

**Adrannau Basged Grog, Bocs Ffenestr a Chynhwysydd Patio**
Andrew Robinson, Sir Fynwy

**Adran Ieuenctid**
Sioned Edwards, S4C 'Garddio a Mwy'

Nodwch

- Amser beirniadu – **7.30am** Ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026
- Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl y dyddiad cau. Mae pob tâl mynediad yn cynnwys TAW.
- Ni all arddangoswyr ymgeisio mewn unrhyw ddosbarth nad ydynt wedi ei nodi ar eu ffurflen gais. Dim ond cardiau dosbarth a gynhyrchwyd yn swyddogol a ganiateir.

**AMSERAU AGOR Y BABELL GARDDLE:**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 10.00am – 7.00pm |
| Dydd Mawrth | 9.00am – 7.00pm |
| Dydd Mercher | 9.00am – 7.00pm |
| Dydd Iau | 9.00am – 5.00pm |

## PENCAMPWRIAETH RHOSYNNAU CYMRU

Beirniadir dan reolau The Rose Society UK
Bydd y Gymdeithas yn darparu'r Bocsys, Powlenni, Ffiolau, Basgedi a Fframiau Llun.
Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio

*DIFFINIADAU*
Mae blodau minifflora yn fwy o faint na Rhosynnau bach ond yn llai na Rhosynnau H.T.
Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:
**Mr Gareth Davies**

**ARBENNIG 1*: Pencampwriaeth Powlen Rhosynnau yn gyflwynedig gan Mrs Wynne-Finch (Voelas) i'r arddangosfa orau yn yr Adran Rhosynnau.
* *ARBENNIG 2*: Tlws Tom Welch am yr arddangosfa orau o Rosynnau â Blodau Mawr.
* *ARBENNIG 3*: Tlws Parhaol Cefn Parc am yr arddangosfa orau o Rosynnau â Blodau Clwstwr.
*ARBENNIG 4*: Medal Efydd The Rose Society UK am y blodau gorau yn Adran y Rhosynnau.

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Un coesyn o Rosynnau Blodau Clwstwr (Ffloribunda), unrhyw gyltifar(au) | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 2. | Powlen o Rosynnau Blodau Clwstwr **dim mwy na** naw coesyn, unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |
| 3. | Ffiol o bum coesyn o Rosynnau Blodau Clwstwr (Ffloribunda), unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 4. | Powlen o Rosynnau â Blodau Mawr (H.T.) **dim mwy na** naw coesyn, unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |
| 5. | Ffiol o bum coesyn o Rosynnau â Blodau Mawr (H.T.), unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 6. | Rhosyn HT wedi ei harddangos mewn ffrâm llun. Gellir ychwanegu dail ychwanegol o'r un cyltifar. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 7. | Ffiol o **ddim mwy na 5** coesyn o Rosynnau Bach (y math sydd â Blodau Clwstwr), unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 8. | Powlen â **dim mwy na 9** coesyn o Rosynnau bach, (math H.T.), ac un blodyn i bob coesyn, unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. | Bocs o chwe blodyn Rhosynnau bach (math H.T.) unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 10. | Powlen â **dim mwy na 9** coesyn o Rosynnau Minifflora, un blodyn i bob coesyn, unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |
| 11. | Rhosyn Minifflora (math HT) wedi'i arddangos mewn ffrâm llun. Gellir ychwanegu dail o'r un cyltifar. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 12. | **Dosbarth Dechreuwyr –** Unrhyw amrywiaeth o Rosyn, 3 coesyn mewn ffiol. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRAN FFIWSIA

**NODER:** Derbynnir Triphylla yn nosbarth 17 yn unig

*DIFFINIADAU*

Hanner safonol – coesyn clir heb fod yn llai na 45 cm a heb fod yn fwy na 75 cm.
Chwarter safonol – coesyn clir heb fod yn llai na 25 cm a heb fod yn fwy na 45 cm.
Safonol Bach – coesyn clir heb fod yn llai na 15 cm a heb fod yn fwy na 25 cm.

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:
**Mr Gareth Davies**

| **Dosbarth** | | **Tâl Ymgeisio** | **Gwobrau** 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 13. | Un potyn o gyltifar sengl neu hanner-dwbl, potyn heb fod yn fwy na 15cm. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 14. | Un potyn safonol bach, potyn heb fod yn fwy na 13cm. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 15. | 3 photyn o gyltifar sengl, hanner-dwbl neu ddwbl, potyn heb fod yn fwy na 15cm. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 16. | Potyn crog o gyltifar sengl, hanner-dwbl neu ddwbl, potyn heb fod yn fwy na 25cm. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 17. | Un potyn o fath Triphylla, potyn heb fod yn fwy na 20cm. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 18. | **Dosbarth Dechreuwyr –** Unrhyw amrywiaeth o Ffiwsia, potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRAN DAHLIA

**NODWCH:** Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio.

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:-
**Miss Dee Rees**
**Y Meistri R & L Evans a William Evans**

*ARBENNIG 5*: Cyflwynir Medal Arianblat The National Dahlia Society i enillydd y wobr 1[af] yn Nosbarth 24.

*ARBENNIG 6*: Cyflwynir Medal Efydd The National Dahlia Society i enillydd a ddewisir yn ôl doethineb y Beirniad.

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 19. | TRI DAHLIA – o'r un maint<br>Canolig, bach neu fach iawn.<br>Cactws neu hanner.<br>Unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 20. | TRI DAHLIA – o'r un maint<br>Decs neu bêl canolig, bach neu fach iawn.<br>Unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 21. | DAHLIAS POM<br>Ffiol o bump 55mm neu Ffiol o dri 83mm.<br>Unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 22. | TRI DAHLIA o'r un fath<br>LILÏAU'R DŴR NEU EDDIOG<br>Unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 23. | DAHLIAS<br>COLEROG A/NEU SERENNOG<br>Naw mewn basged. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 24. | **DOSBARTH TAIR FFIOL -**<br>Unrhyw 3 ffiol o Ddosbarth 19 i 23.<br>(Gellir cynnwys rhai Colerog a/neu Serennog ond rhaid bod 3 mewn ffiol). | £2.00 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |
| 25. | DAHLIAS - Casgliad o 4<br>gwahanol amrywiaeth o Ddahlia<br>– 1 blodyn i bob ffiol | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 26. | **Dosbarth Dechreuwyr –**<br>Ffiol o unrhyw 3 coesyn,<br>unrhyw gyltifar o Dahlia | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

**Darperir y ffiolau/basgedi.**

## ADRAN CARNASIYNAU

**NODWCH:** Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio. Darperir y ffiolau

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 27. | 5 blodeuyn o unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 28. | 3 blodeuyn o'i hun, unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 29. | 1 blodeuyn o unrhyw gyltifar. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRAN BLODAU'R CLEDDYF

**NODWCH:** Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio. Darperir y ffiolau

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 30. | Ffiol o un sbrigyn sengl, unrhyw gyltifar. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 31. | Ffiol o 3 sbrigyn, unrhyw gyltifar(au) | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRAN LILÏAU

**NODWCH:** Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio. Darperir y ffiolau

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 32. | Ffiol o dri choesyn.<br>Unrhyw gyltifar(au). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## DOSBARTH FFIOL ORAU'R SIOE FRENHINOL

**NODWCH:** Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio. Darperir y ffiolau

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 33. | "FFIOL ORAU'R SIOE FRENHINOL"<br>Ffiol o goesynnau blodeuol cymysg<br>gyda chyfanswm o rhwng 5 a 10 coesyn,<br>o ddau fath gwahanol o blanhigyn o leiaf.<br>GWELER RHEOLAU PELLACH AR GEFN YR ATODLEN. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRAN PLANHIGYN POT & ADRAN MYNAWYD Y BUGAIL

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:-
**Mr Dilwyn Thomas**

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 34. | PLANHIGYN POT Blodeuol, (ac eithrio Ffiwsia, Mynawyd y Bugail a Streptocarpws). Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 35. | PLAHIGYN POT Deiliog, (ac eithrio Ffiwsia a Mynawyd y Bugail). Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 36. | UN CACTWS Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 37. | UN SUDDLON Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 38. | UN STREPTOCARPWS Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 39. | Un planhigyn cylchfaol. Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 40. | Un potyn o unrhyw gyltifar. Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 41. | Arddangosfa Planhigyn Tŷ Hyd at 3 planhigyn bach (uchafswm maint pot 10cm) wedi'u gosod gyda'i gilydd er mwyn effaith | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 42. | Y planhigyn Tŷ mwyaf annisgwyl neu prin (ee. planhigyn dail amrywiol, planhigyn llifo, planhigyn dail annisgwyl) Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 43. | Mynawyd y Bugail – dail persawrus Barnwyd ar gyfer ansawdd dail, persawr a'r effaith gyffredinol. Potyn o unrhyw faint. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 44. | **Dosbarth Dechreuwyr –** Unrhyw Blanhigyn Pot. Potyn o unrhyw faint | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## PENCAMPWRIAETH PYS PÊR CENEDLAETHOL CYMRU

Beirniadir o dan Reolau National Sweet Pea Society.
**NODWCH:** Dylai bob darn a arddangosir fod yn lân.
Rhaid bod coesyn pob blodyn mewn deunydd sy'n dal dŵr.
Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio.
**Darperir Powlenni a Ffiolau ar gyfer pob dosbarth oni bai am Dosbarth 55 a 56**

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:-
**English Sweet Peas**
**Jenny and Lewis Morgan**
**Allan and Eirwen Evans**

**ARBENNIG 7*: Cyflwynir Cwpan Her Parhaol sy'n rhodd garedig gan y diweddar Mr A P Hughes am y ffiol orau yn y Sioe.
**ARBENNIG 8*: Cyflwynir Cwpan Her Parhaol Goodchild i enillydd Dosbarth 45.
**ARBENNIG 9*: Cyflwynir Tlws Parhaol gan y diweddar Mr Ron Bailey, Henffordd, am y darn arddangos gorau yn Nosbarth 46.

| **Dosbarth** | | **Tâl Ymgeisio** | **Gwobrau** 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| **45.** | CHWE FFIOL NODEDIG<br>Ni ddylid dangos mwy na 12 coesyn ymhob ffiol.<br>(Bydd enillydd y wobr 1af hefyd yn cael Cerdyn Medal Arian NSPS a Medal Efydd). | **£2.00** | **£20.00** | **£15.00** | **£10.00** |
| **46.** | TAIR FFIOL NODEDIG<br>Cyfyngir i dyfwyr sy'n tyfu<br>**dim mwy na** 250 o blanhigion.<br>Ni ddylid dangos mwy na 9 coesyn ymhob ffiol.<br>(Bydd enillydd y wobr 1af hefyd yn cael Cerdyn Medal Efydd NSPS). | **£2.00** | **£12.00** | **£10.00** | **£8.00** |
| **47.** | UN FFIOL GYMYSG<br>Dim mwy na 15 coesyn. | **£2.00** | **£10.00** | **£8.00** | **£6.00** |
| **48.** | POWLEN GYMYSG<br>Powlen â dim mwy na 24 coesyn o<br>Bys Pêr gydag unrhyw ddail.<br>I'w gweld o'r blaen a'u beirniadu am eu hansawdd a'u heffaith addurniadol. | **£2.00** | **£12.00** | **£10.00** | **£8.00** |
| **49.** | FFIOL SENGL AGORED<br>Un ffiol â hyd at 9 coesyn o unrhyw UN cyltifar<br>o unrhyw ddosbarthiad Spencer. | **£2.00** | **£5.00** | **£3.00** | **£2.00** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **50.** | COESYN SENGL | **£2.00** | **£5.00** | **£3.00** | **£2.00** |

Coesyn sengl gorau mewn ffiol o gyltifar Spencer, unrhyw liw.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **51.** | **DOSBARTH DECHREUWYR** | **£2.00** | **£5.00** | **£3.00** | **£2.00** |

UN FFIOL O GYLTIFARAU SPENCER CYMYSG – 12 COESYN.
Yn agored dim ond i'r rheiny sy'n tyfu llai na 100 Planhigyn Pys Pêr ac sydd heb ennill gwobr 1[af] am Bys Pêr yn y Sioe hon. (Bydd enillydd y wobr 1[af] hefyd yn cael Cerdyn Medal Efydd NSPS).

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **52.** | DOSBARTH ARBENNIG PYS PÊR CYMRU | **£2.00** | **£30.00** | **£20.00** | **£10.00** |

I gynnwys:
- **Powlen** o Bys Pêr Spencer Cymysg, 18 coesyn
- **Ffiol** o Bys Pêr Spencer Cymysg, 15 coesyn
- **Ffiol** o Pys Pêr Hen Ffasiwn neu Grandiflora, 12 coesyn

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **53.** | POWLEN GYMYSG O BYS PÊR HEN FFASIWN | **£2.00** | **£10.00** | **£8.00** | **£6.00** |

Powlen â dim mwy na 24 coesyn o Bys Pêr gydag unrhyw ddail. I'w gweld o bob cyfeiriad a'u beirniadu am eu hansawdd a'u heffaith addurniadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **54.** | UN FFIOL O BYS PÊR | **£2.00** | **£10.00** | **£8.00** | **£6.00** |

- Gall ddefnyddio unrhyw nifer o goesyn a dail
- I'w gweld o bob cyfeiriad a'i beirniadu am ei ansawdd a'i effaith addurniadol
- **Dim deunydd llwyfannu o unrhyw fath i'w ddefnyddio yn y dosbarth hwn**
- bydd ffiol 2-modfedd ar gael

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **55.** | TREFNIANT GAN DDEFNYDDIO DIM OND 7 COESYN PYS PÊR | **£2.00** | **£10.00** | **£8.00** | **£6.00** |

- Gall unrhyw ddeilen a deunydd naturiol (ee canghellau, glaswellt) gael eu defnyddio, ond ni chaniateir unrhyw flodau eraill
- Gall unrhyw gynhwysydd o'ch dewis cael ei ddefnyddio
- Caniateir sylfeini ac ategolion
- Maint cymwys – 61cm o uchder x 61cm o led (2' x 2')
- I gael ei feirniadu o'r blaen yn unig am ansawdd a'i effaith addurniadol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **56.** | DOSBARTH BACH | **£2.00** | **£10.00** | **£8.00** | **£6.00** |

- Trefniant sy'n cynnwys unrhyw Lathyrus
- Caniateir dail ychwanegol a/neu laswellt
- Ni chaniateir blodau ychwanegol (ee gypsophila)
- Maint mwyaf: 25.5cm mewn unrhyw gyfeiriad (10")
- Rhaid bod mewn cynhwysydd eich hun

## ADRAN BLODAU TOREDIG

**NODWCH:** Os defnyddir oasis (neu rywbeth tebyg) mewn ffiol, dylid ei adael 5mm yn is na brig y ffiol fel bod modd dyfrio. **Darperir y ffiolau.**

Derbynnir talebau gwerth £70 tuag at yr adran hon gan:-
**Zoars Ark Garden Centre, Neath, 01639 642180**

| **Dosbarth** | | **Tâl Ymgeisio** | **Gwobrau** 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 57. | Un ffiol o flodau unflwydd - cyltifar sengl. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 58. | Un ffiol o flodau unflwydd cymysg. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 59. | Un ffiol o flodau llysieuol lluosflwydd - cyltifar sengl. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 60. | Un ffiol o flodau llysieuol lluosflwydd cymysg. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 61. | Arddangosfa blodau toredig yn wynebu'r blaen. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 62. | Un ffiol o Flodyn Seithliw 3 o unrhyw amrywiaeth. I gael ei feirniadu am ansawdd, lliw a'i effaith addurniadol. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRAN LLYSIAU

Beirniadir dan Reolau National Vegetable Society
**Nodwch:** Ni ddylai'r plât fod yn fwy na 25cm

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:-
**Dr Fred Slater**
**Mrs Susan Sherwood**
**Mrs Pat Smith**

*ARBENNIG 10*: Cyflwynir Cerdyn a Medal Arian NVS i'r gorau yn yr Adran.
*ARBENNIG 11*: Cyflwynir Plac NVS am y darn arddangos gorau yn Nosbarth 64.
*ARBENNIG 12*: Cyflwynir Rhoséd CAFC am y Cil Wobr yn yr Adran.

| **Dosbarth** | | **Tâl Ymgeisio** | **Gwobrau** 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 63. | 6 Coden o Bys. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 64. | 5 Taten, Gwyn, unrhyw fath (ar blât). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 65. | 5 Taten, Lliw, unrhyw fath (ar blât). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 66. | 5 Tomato gyda'r Calycs yn sownd (ar blât). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 67. | 5 Tomato Ceirios gyda'r Calycs yn sownd (ar blât). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 68. | 3 moronen, ac eithrio hir. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 69. | 6 Ffeuen Ffrengig. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 70. | 6 Ffeuen. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 71. | 3 Winwnsyn, o dan 250g yr un. Unrhyw liw neu fath. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 72. | 9 Sialotsyn, mawr (ar blât). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 73. | 9 Sialotsyn, piclo (ar blât). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 74. | 2 Giwcymbr. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 75. | 3 Betysen Goch - unrhyw fath | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 76. | 3 Bwlb Garlleg - unrhyw fath | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 77. | Unrhyw lysieuyn arall heb ei restru (2 o bob math). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 78. | Casgliad o 3 fath o Lysiau (2 o bob un) | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 79. | 3 Llysieuyn a dyfir yn Organig (yw enwi, nid oes angen ardystiad ond ni ddylid defnyddio gwrteithiau neu chwistrellon artiffisial). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 80. | Basged o Gynnyrch Lotment (cymysgedd o lysiau ac/neu ffrwythau wedi'u harddangos mewn trug neu fasged, yn cael eu beirniadu am amrywiaeth, ansawdd a chyflwyniad). | £2.00 | £15.00 | £10.00 | £5.00 |
| 81. | Perlysiau – 5 math i'w henwi. Wedi'u trefnu i gael effaith. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 82. | Cnydau Salad – Casgliad o 3 planhigyn salad mewn pot i gael eu henwi a'u harddangos ar gyfer effaith. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 83. | Llysiau Anarferol neu Arloesol i gael ei enwi, 1 esiampl (ee moron lliwiedig, tomatos streipiog, cucamelons ac ati) | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 84. | Pompiwn neu Sgwash trwmaf I gael ei bwyso ar y diwrnod, unrhyw amrywiaeth. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 85. | **Dosbarth Dechreuwyr -** Casgliad o Lysiau ar hambwrdd sy'n gymesur â'r arddangosfa ond heb fod yn fwy na 45cm x 60cm (2 fath o lysiau – 2 o bob un) | £2.00 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |
| 86. | **Casgliad Arddangoswr Am Y Tro Cyntaf** Arddangosfa o 3 math o lysiau, unrhyw amrywiaeth, gan arddangoswyr nad ydynt erioed wedi cymryd rhan yn yr adran yma o'r blaen. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRAN FFRWYTH MEDDAL

**Nodwch:** Ni ddylai'r plât fod yn fwy na 25cm

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:-
**Welsh Fruit Socks.**

| **Dosbarth** | | **Tâl Ymgeisio** | **Gwobrau** 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 87. | Plât o unrhyw fathau o ffrwythau meddal. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 88. | Plât â hyd at 20 Gwsberen. Unrhyw fath. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 89. | Plât o gyrens duon neu gyrens cochion. Unrhyw fath. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 90. | Casgliad Ffrwyth Meddal 3 math gwahanol o Ffrwyth Meddal (ee mefus, mafon, gwsberis, cwrens, llus duon bach ac ati) i'w feirniadu am amrywiaeth ac ansawdd cyffredinol. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 91. | Ffrwyth Meddal Arloesol neu Anarferol – i'w henwi (ee llus duon bach, mafon fwyaren, mwyaren logan, mwyaren josta ac ati). | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 92. | Arddangosfa "Bowlen o Haf" Bowlen neu trug addurniadol o ffrwythau meddal cymysg wedi eu trefnu i greu effaith sy'n dal y llygaid. I'w feirniadu am gyflwyniad ac ansawdd. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |
| 93. | **Dosbarth Dechreuwyr –** Plât o unrhyw fathau o ffrwythau meddal. | £2.00 | £8.00 | £5.00 | £3.00 |

## ADRANNAU BASGED GROG, BOCS FFENESTR A CHYNHWYSYDD PATIO

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol ar gyfer Dosbarth 94 & 95 gan:-
**Brian Davies, Red Dragon Mobility Scooters & Country Stores, Gowerton**

| Dosbarth | | Tâl Ymgeisio | Gwobrau 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 94. | BASGED GROG GYMYSG | £2.50 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |

Basged grog wedi'i phlannu'n addas i'w harddangos tu allan.
Darperir bachyn ar reilen 2.1m uwchben lefel y tir.
Disgwylir i'r arddangosydd ddarparu'r ddolen grog.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 95. | CYNHWYSYDD PATIO | £2.50 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |

Y cynhwysydd i'w blannu'n addas i'w arddangos tu allan.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 96. | ARDDANGOSFA BOCS FFENESTR | £2.50 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |

Ni ddarperir y bocs.
Uchafswm y mesuriadau - 90cm o hyd, 23cm o led, 23cm o ddyfnder.
Gall arddangoswyr blannu'n uniongyrchol i mewn i'r bocs neu osod cynwysyddion sydd wedi eu plannu'n barod yn y bocs. Darn arddangos i'w osod ar y silff a ddarperir tua 90cm uwchben lefel y tir.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 97. | CYNHWYSYDD AILGYLCHEDIG NEU ANARFEROL | £2.50 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |

Cynhwysydd wedi ei blannu gan ddefnyddio unrhyw eitem ailgylched neu anarferol (ee can dŵr, bwced, esgidiau, basn ymolchi, ac ati).
I'w blannu'n addas i'w arddangos tu allan. I'w feirniadu ar gyfer dychymyg yn ogystal ag ansawdd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 98. | CYNHWYSYDD THEMATIC | £2.50 | £20.00 | £15.00 | £10.00 |

Arddangosfa cynhwysydd wedi'i ysbrydoli gan thema (ee arfordir, gardd bwthyn, cyfeillgar i blanhigion paill neu gynllun lliwiau ac ati).
I'w arddangos mewn unrhyw gynhwysydd, uchafswm y mesuriad 50cm o led. Caiff ei feirniadu am greadigrwydd, ansawdd ac effaith addurnol.

**NODWCH:** Bydd y beirniad yn rhoi pwyntiau i ddosbarthiadau 94 i 98 fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ansawdd – meithrin, cyflwr | 30 pwynt |
| 2. | Cynnwys – amrywiaeth, newydd-deb | 30 pwynt |
| 3. | Arddangosfa – defnyddio lliw a gofod | 20 pwynt |
| 4. | Gorffeniad/cyflwyniad | 20 pwynt |

Lle bo un math o ddeunydd planhigion yn flaenllaw bydd "amrywiaeth" yn cyfeirio at nifer y cyltifarau.

## DOSBARTH MASNACHOL

99. Arddangosfa Fasnachol i gymryd ardal o ddim mwy na 3m x 1.8m (10 x 6 troedfedd). Dewis gan dyfwyr. **NI** chaiff llwyfan ei ddarparu. Beirniad i'w gadarnhau.

## ADRAN IAU

Dim tâl ymgeisio • Gwobrau - 1af £5 2il £3 3ydd £2
Pob dosbarth yn agored i unigolion neu grŵpiau ysgol/coleg.

Derbynnir cymorth hael tuag at y gwobrau ariannol yn yr adran hon gan:-
**Mr & Mrs Allan Evans**
**Lyn & Carol Williams**
**Amanda Burton**

### DOSBARTHIADAU PLANT (11 mlwydd ac iau)

100. **Creu Byd Gardd Fach**
I'w osod mewn unrhyw gynhwysydd (maint uchaf 45cm x 45cm). Gallai fod yn ardd tylwyth teg, tiriogaeth deinosoriaid, golygfa ar y traeth – gadewch i'ch dychymyg redeg yn rhydd!

101. **Creadigaethau Anifeiliaid Ffrwythau a Llysiau**
Gwnewch anifail gan ddefnyddio llysiau a/neu ffrwythau yn bennaf. Byddwch mor ddoniol neu mor realistig ag y dymunwch!

102. **Ffiol yn cynnwys unrhyw Flodau a Ddeiliach o'r Ardd**
Dewiswch eich hoff flodau a gwyrdd-ddail o'r ardd a'u trefnu mewn ffiol.
Ffiol i'w ddarparu gan yr arddangoswr.

103. **Creu Gwesty Trychfilod**
Heb fod yn fwy na 20 x 15 x 10cm. Defnyddiwch ddeunyddiau wedi'i ailgylchu a naturiol. Wedi ei gynllunio i roi cartref clyd i bryfed.

104. **Tyfwch Fag o Datws**
Plannwch un had datws yn y bag, twb neu bot. Dewch â'r cynhwysydd cyfan i'r Sioe i'w wagio a'i bwyso. Y cynhaeaf mwyaf trwm fydd yn ennill!

105. **Taten Sengl Drymaf**
Dewch â'ch taten fwyaf (unrhyw amrywiad), i'w bwyso yn y Sioe.

### DOSBARTHIADAU IEUENCTID (11—16 mlwydd oed)

106. **Tyfwch eich Llysiau eich Hun mewn Pot**
Unrhyw lysieuyn, wedi ei dyfu mewn pot.

107. **Ffiol yn cynnwys unrhyw Flodau a Ddeilach o'r Ardd**
Dewiswch a threfnwch unrhyw flodau gardd a gwyrdd-ddail. Ffiol i'w ddarparu gan yr arddangoswr.

108. **Creu Gwesty Trychfilod**
Heb fod yn fwy na 20 x 15 x 10cm. Defnyddiwch eich creadigrwydd gyda deunyddiau naturiol ac ailgylchu.

109. **Tyfwch Fag o Datws**
Plannwch un had datws yn y bag, twb neu bot. Dewch â'r cynhwysydd cyfan i'r Sioe i'w wagio a'i bwyso. Y cynhaeaf mwyaf trwm fydd yn ennill!

110. **Taten Sengl Drymaf**
Dewch â'ch taten fwyaf (unrhyw amrywiad), i'w bwyso yn y Sioe.

111. **Dosbarth Trefnu Blodau – mwy o fanylion i'w ddilyn.**

# Cystadleuaeth Whilber/Berfa Addurnedig

## *Thema 2026*

## *'Gwledydd o Amgylch y Byd*

**Yn agored i Ysgolion Cynradd a Chymdeithasau Plant yn unig**

Enillwch talebau i'ch ysgol ac ymweliad â'r Sioe trwy gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Whilber/Berfa Addurnedig
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag
Eve Watkins ar 01982 553683 eve@rwas.co.uk



*Cysylltwch ag Eve hefyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â Chystadleuaeth Garddio Ysgolion y Sir Nawdd (Brycheiniog).*

## RHEOLAU AC AMODAU CYFFREDINOL

RHEOLAU CYFFREDINOL

1. Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi ymrwymo i amddiffyn eich data personol a'u prosesu yn unol â gofynion cyfreithiol yn unig. Am ragor o fanylion dylech ofyn am gopi o'n Polisi GDPR. Rydym yn prosesu eich data personol gan eu bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein contract gyda chi i hwyluso eich gallu i gystadlu yn y digwyddiad. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data tu allan i'r DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Ni fyddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd parti ac eithrio awdurdodau rheoleiddio neu Gymdeithasau cyswllt y gallem gyflwyno ceisiadau iddynt a chanlyniadau i'w gwirio i sicrhau eu bod yn ddilys ac yn gymwys, ar sail eu buddion cyfreithlon. Cyhoeddir eich enw a'ch sir yng nghatalog y Gymdeithas. Bydd canlyniadau hefyd yn cael eu dosbarthu ymhlith aelodau'r wasg a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cadw'ch data yn unol â'n hamserlen gadw er mwyn symleiddio ceisiadau yn y dyfodol. Mae gennych hawliau amrywiol o ran y data yr ydym yn eu dal, gan gynnwys yr hawl i gywiro a gwrthwynebu i'ch data gael eu prosesu. Cofiwch hefyd y bydd ffotograffau a ffilmiau'n cael eu cymryd ar draws Maes y Sioe at ddibenion darlledu, cyhoeddusrwydd a marchnata.

2. Nodwch, os yw'r arddangosydd o dan 18 oed, yna rhaid i riant/warcheidwad sydd dros 18 oed gwblhau'r cais ar-lein. Nodwch fod y sawl sy'n llenwi'r ffurflen gais yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros gydymffurfio â'r holl reolau a rheoliadau.

3. **Tlysau a Chwpanau Her – NODWCH:-** Bydd y Tlysau a'r Cwpanau Her yn cael eu cadw'n barhaol mewn Ystafell Dlysau sydd wedi ei hadeiladu yn arbennig at y diben yn Neuadd Clwyd Morgannwg. Bydd enillydd pob Tlws a Chwpan Her yn cael Cofrodd Swyddogol Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru i'w chadw, a bydd eu henw'n cael ei engrafu ar y Tlysau a'r Cwpanau Her hefyd.
   Mae Gwobrau Arbennig a nodir gyda * yn dangos Cwpanau a Thlysau sy'n eiddo i'r Gymdeithas.

4. **Mae'r Gymdeithas, a'r Gymdeithas yn unig, yn cadw'r hawl i enwebu rhywun/rhywrai i gynnal cyfweliadau gyda'r cyfryngau. Rhaid cael caniatâd y Gymdeithas os oes unrhyw griwiau camera eisiau dod gydag arddangosydd yn ystod y digwyddiad.**

5. Telir pob gwobr ariannol trwy daliad BACS i arddangoswyr llwyddiannus o fewn 8 wythnos ar ôl y Sioe, ac eithrio mewn achosion o brotest.

6. Er mwyn annog a gwella cyfranogiad yn yr Adran Arddwriaeth gystadleuol gyffredinol, **(ac eithrio'r Adran Iau),** mae'r Gymdeithas wedi cytuno i ddarparu un tocyn mynediad (unrhyw ddiwrnod) i bob arddangoswr am gyfnod arbrofol o ddwy flynedd yn unig (2025 & 2026). Bydd canlyniadau hyn yn cael eu cofnodi a'u monitro'n frwd. Bydd tocynnau mynediad yn cael eu dosbarthu gan y Prif Stiward ar gyflwyno'r ceisiadau ar fore Sul neu fore Llun.

GARDDWRIAETH

1. Fe fydd y Babell Garddle ar agor i dderbyn darnau arddangos amatur o **2.00pm** hyd at **9.00pm ddydd Sul 19 Gorffennaf 2026** (bydd unrhyw bryd yn hwyrach na hyn yn destun cytundeb blaenorol gan, a gyda disgresiwn y Brif Stiward yn unig) **ac yn ychwanegol o 6.00am tan 7.00am Ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026.** Er mwyn atal brys a dryswch ar Ddiwrnod y Sioe, cewch eich annog yn gryf i ddod â'ch darnau arddangos a'u llwyfannu heb fod yn hwyrach na **dydd Sul 19 Gorffennaf, ond rhaid bod pob darn arddangos yn y Babell ac wedi eu llwyfannu erbyn 7.00am ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026.**

2. **Ni cheir symud unrhyw ddarn arddangos amatur cyn 5pm ddydd Iau 23 Gorffennaf 2026.** Bydd y trefniadau er mwyn i arddangoswyr yn yr adran amatur symud eu darnau arddangos yn cael eu cynnwys gyda'u pecyn mynediad.

3. Ni chaiff arddangoswyr ddod â'u cŵn i mewn i'r Babell.

4. Cyfyngir ar faint potiau dim ond lle nodir hynny yn yr atodlen. Lle nad oes unrhyw beth wedi ei nodi, dylai'r maint fod yn gymesur i'r planhigyn. Diamedr potyn yw'r mesuriad tu mewn i'r potyn mor agos at y brig â phosibl.

5. Yr arddangosydd ddylai fod wedi tyfu pob planhigyn a chynnyrch.

6. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i bob adran yw dydd Mercher 24 Mehefin 2026.** I gael cadarnhad bod eich ceisiadau wedi cael eu derbyn, cysylltwch â ni hyd nes dyddiad cau'r ceisiadau.

7. Bydd y beirniadu'n dechrau'n brydlon am 7.30am **ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026.** Gellir diarddel unrhyw ddarn arddangos sydd heb ei lwyfannu'n gywir erbyn hynny. Bydd y Babell yn cael ei chlirio yn ystod y beirniadu ac ni fydd unrhyw un heblaw'r Beirniaid a'r Swyddogion sy'n bresennol yn cael bod yn y Babell hyd nes cwblhau'r beirniadu. **Bydd y Babell Garddle ar agor i'r cyhoedd o 10.00am.**

8. Rhaid bod pob darn arddangos yn sefyll yn rhydd. Ni ddylai unrhyw ddarn arddangos fod wedi'i osod yn sownd wrth unrhyw ddarn o'r llwyfan a ddarperir. Gall y Prif Stiward ddirymu'r rheol hon os oes mater o ddiogelwch i'r cyhoedd.

9. **Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol.** ***Gall beirniad unrhyw ddosbarth yn yr atodlen amatur, wrthod beirniadu darn arddangos os yw'n barnu nad ydyw o'r ansawdd y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan ddarn arddangos mewn Sioe Genedlaethol. Ni fydd ceisiadau yn y dyfodol, gan arddangosydd o'r fath, yn cael eu derbyn yn yr adran amatur.***
***Mae pob beirniad yn cadw'r hawl i gynghori'r stiwardiaid i symud darnau arddangos sy'n amlwg o safon isel ac yn adlewyrchu'n wael ar safon Sioe Genedlaethol.***

10. Gofynnir i arddangoswyr wneud yr holl waith adnewyddu angenrheidiol ar gyfer blodau wedi eu torri cyn 9.00am ar unrhyw ddiwrnod ar ôl diwrnod cyntaf y Sioe.

11. Rhaid protestio'n ysgrifenedig a'i roi i'r Prif Stiward o fewn hanner awr wedi cwblhau'r beirniadu, ynghyd â blaendal o £25.00 a ad-delir os cynhelir y brotest.
**Trefnwyd Panel sy'n cynnwys Prif Stiward, Pennaeth Gweinyddiaeth ac un Stiward Garddwriaeth arall i symud unrhyw ddarnau arddangos o safon isel, delio ag unrhyw brotestiadau ayb.**

12. Mae'r Gymdeithas yn cadw i'w hun, trwy ei Bwrdd Cyfarwyddwyr, yr unig hawl a'r holl hawl i ddehongli'r amodau a'r rheoliadau hyn neu unrhyw amodau a rheoliadau eraill a osodir, neu daflenni gwobrau, ac i setlo a phennu pob mater, cwestiwn neu wahaniaeth mewn perthynas â'r rhain, neu sy'n codi fel arall yn sgil y Sioe, neu mewn perthynas â'r Sioe neu'n gysylltiedig â'r Sioe, yn ôl ei doethineb.

13. Ni fydd y Gymdeithas yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros golled neu ddifrod i ddarnau arddangos (neu unrhyw ran ohonynt) neu eiddo personol cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad neu ar ôl y digwyddiad, ac ni fydd y Gymdeithas yn gyfrifol am golled unrhyw blanhigyn, blodyn neu gynhwysydd wrth eu cludo i Faes y Sioe, neu o Faes y Sioe neu ar faes y sioe, yn ystod y digwyddiad neu ar ôl y digwyddiad.

14. Fe fydd Stiward ar ddyletswydd yn y Babell hyd nes 9.00pm **ddydd Sul 19 Gorffennaf 2026,** ac ar ôl hynny gellir cysylltu mewn argyfwng trwy'r Ganolfan Feddygol ar 01982 551057 neu Ganolfan Reoli'r Sioe ar 01982 551270. Gellir cysylltu â staff diogelwch yn y Fynedfa Peiriannau, 24 awr y dydd. Bydd gard ar batrôl gyda'r hwyr a dros nos yn ystod y Sioe.

15. **Yn ystod amserau llwyfannu yn yr Adran Amatur, dim ond arddangoswyr a swyddogion fydd yn cael aros.**

16. Dyfernir pwyntiau ar sail: 1$^{af}$ – 3, 2$^{il}$ – 2, 3$^{ydd}$ – 1.

17. Cyflwynir Rhoséd i enillydd pob gwobr gyntaf ymhob un o'r adrannau amatur.

18. Caniateir DAU ddarn arddangos gan un arddangosydd yn unrhyw un dosbarth.

19. Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw ddosbarth pan fo'r ceisiadau'n isel.

20. Er mwyn cydymffurfio â Gorchymyn Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol 1996 mae'n hanfodol nad oes unrhyw gynnyrch blawd esgyrn na chig yn cael eu defnyddio yn yr adran Garddwriaeth.

21. Yn ddelfrydol dylai arddangosydd fynd ag unrhyw wastraff a gynhyrchir wrth lwyfannu, adref, neu ei roi yn y biniau gwastraff ailgylchu perthnasol i'w casglu yn Rhodfa A.

22. Byddai swyddfa'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi cael gwybod pan na fydd modd arddangos mewn unrhyw ddosbarth, cyn gynted â phosibl cyn y Sioe.

23. Bydd cardiau a rhosedau a wobrwyir sydd ddim wedi cael eu casglu yn ystod y Sioe yn cael eu postio at yr arddangoswyr hynny sy'n cysylltu â'r swyddfa o fewn 6 wythnos i'r digwyddiad yn unig.

**Pencampwriaeth Pys Pêr Cenedlaethol Cymru**

1. Ni chaiff ddau unigolyn neu fwy arddangos ar wahân o'r un ardd, blanhigfa neu dŷ planhigion (ac eithrio arddangoswyr iau).

2. Rhaid i bob ffiol o Bys Pêr a arddangosir gael ei henwi'n gywir ac yn ddarllenadwy ar gerdyn gwyn. Rhaid labelu unrhyw gyltifarau nad ydynt yn rhai masnachol gyda'r gair 'hadblanhigyn/seedling' hyd nes i'r holl feirniadu ddod i ben ac yna gellir ychwanegu enw'r cyltifar at y cerdyn os dymunir.

3. Bydd defnyddio weiar neu gymorth arall yn sownd wrth flodau, neu sbigynnau, neu arddangos sbigynnau gyda gwrysg yn sownd wrthynt, yn diarddel. NI DDYLAI brwyn, gwair nac unrhyw ddeunyddiau eraill a ddefnyddir mewn ffiolau i hwyluso trefniadau llwyfannu ymddangos uwchben rimyn y ffiol, a rhaid dangos yr holl Bys Pêr yn y dosbarthau ffiol mewn ffiolau o fath yr NSPS fel y ceir gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Darperir powlenni, basgedi a soseri hefyd.

4. Dylai coesynnau pob blodyn fod mewn deunydd sy'n dal dŵr.

5. Mae rhestr lliwiau'r NSPS ar gael i arddangoswyr o'r swyddfa, ar gais.

**Rheolau Dosbarth Ffiol Orau'r Sioe Frenhinol**

1. Mae dosbarth Ffiol Orau'r Sioe Frenhinol ar gyfer ffiol o goesynnau blodeuol cymysg o unrhyw blanhigyn blodeuol sy'n cynnwys cyfanswm o rhwng pum coesyn a deng coesyn, wedi eu cymryd o ddau fath gwahanol o blanhigyn, o leiaf. Nodwch ei fod yn dweud dau fath gwahanol o blanhigyn; NID yw dau amrywiad o'r un planhigyn yn ddau fath.

2. Caiff yr arddangosfa ei beirniadu allan o gyfanswm o 35 o bwyntiau, wedi eu rhannu yn: 25 pwynt ar gyfer ansawdd y blodau, a 10 pwynt ar gyfer y cyflwyniad cyffredinol. Bydd y ffiol yn cael ei gweld o bob cyfeiriad. Dylid beirniadu'r blodau yn ôl y rheolau arferol a ddefnyddir ar gyfer dosbarthiadau eraill.

3. Rhaid bod y coesynnau a ddefnyddir yn yr arddangosfa yn dangos blodau yn unig; ni chaniateir pennau hadau nac aeron.

   <u>Nodiadau i arddangoswyr a beirniaid</u>
   - Gall coesynnau blodeuol ddod o UNRHYW blanhigyn blodeuol.
   - Rhaid bod y mathau gwahanol o blanhigion yn dod o genera gwahanol. Er enghraifft, ni fyddai pincs, carnasiynau a Sweet William – sydd oll yn beniganau – yn cael eu gweld fel mathau gwahanol.
   - Mae dosbarth Ffiol Orau'r Sioe Frenhinol yn agored i unrhyw un gystadlu ac nid ydyw wedi ei fwriadu ar gyfer tyfwyr sy'n arddangos mewn dosbarthiadau rhywogaethau sengl yn rheolaidd mewn sioeau yn unig.
   - Dylai'r beirniad farcio'r pwyntiau a ddyfernir yn glir ar gardiau'r arddangoswyr.

**Llysiau a Ffrwyth Meddal**

1. Pob amrywiad i'w enwi.

2. Ni ddylid symud unrhyw ddarn arddangos na'i newid ar ôl beirniadu.

3. Caniateir dau ddarn arddangos gan pob arddangosydd ym mhob dosbarth.

4. Ni ddylai'r plât fod yn fwy na 25cm.

***GOFYNNNWN YN GAREDIG I BOB ARDDANGOSWR NODI:***
**Fe fydd y Babell yn cau nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher am 7.00pm.**

